Senedd Cymru
Ymchwil y Senedd

# Llinell amser coronafeirws: yr ymateb yng Nghymru

## Briff Ymchwil

Mae'r llinell amser isod yn tynnu sylw at ddatblygiadau yng Nghymru mewn ymateb i'r coronafeirws (Covid-19).

### Teithio rhyngwladol yn ailddechrau

*17 Mai 2021*

O ddydd Llun 17 Mai ymlaen, gall teithio rhyngwladol ailddechrau o dan system goleuadau traffig wedi'i alinio â Lloegr a'r Alban. Bydd gwledydd yn cael eu pennu fel bod yn wledydd gwyrdd, oren neu goch. Ni fydd yn rhaid i bobl sy'n dychwelyd o wledydd ar y rhestr werdd gael eu gosod dan gwarantîn pan fyddan nhw'n dychwelyd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori pobl i deithio dramor at ddibenion hanfodol yn unig.

Mae gwybodaeth bellach ar deithio tramor a thystysgrifau brechiad er mwyn teithio ar gael gan Lywodraeth Cymru.

### Cymru yn symud i lefel rhybudd 2

*14 Mai 2021*

Yn dilyn yr adolygiad tair wythnos diweddaraf o reoliadau cyfyngiadau'r Coronafeirws, y Prif Weinidog sy'n cadarnhau y bydd Cymru gyfan – o ddydd Llun 17 Mai ymlaen – yn symud i lefel rhybudd 2. Yn ogystal ag ailagor lletygarwch dan do, gall lleoliadau adloniant dan do ailagor a gall nifer cynyddol o bobl fynd i weithgareddau dan do ac awyr agored sydd wedi'u trefnu.

### Ailagor lletygarwch dan do a chefnogaeth bellach

*11 Mai 2021*

Y Prif Weinidog sy'n cadarnhau – o 17 Mai ymlaen – bydd chwech o bobl o chwe aelwyd wahanol yn gallu cwrdd y tu mewn, mewn caffis, tafarndai a bwytai.

Llywodraeth Cymru sydd hefyd yn cyhoeddi y bydd busnesau sy'n dal i gael eu heffeithio gan gyfyngiadau'r Coronafeirws yn gallu hawlio hyd at £25,000 mewn cefnogaeth i dalu costau parhaus hyd at ddiwedd mis Mehefin 2021. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Busnes Cymru.

## Digwyddiadau peilot yn mynd rhagddynt

*11 Mai 2021*

Y Prif Weinidog, Mark Drakeford, sy'n cyhoeddi rhestr arfaethedig o ddigwyddiadau prawf peilot, a fydd yn cael eu cynnal dros yr wythnosau nesaf. Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae hi'n gweithio gyda phartneriaid i ddarparu digwyddiadau peilot y byddant, yn eu tro, yn datblygu prosesau ac arweiniad ar gyfer cynnal digwyddiadau yn ddiogel eto.

## Y DU yn gostwng lefel rhybudd COVID-19

*10 Mai 2021*

Pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU sy'n cytuno i ostwng lefel rhybudd COVID-19 y DU o lefel rhybudd 4 i lefel rhybudd 3. Roedd y DU ar lefel rhybudd 5 ym mis Ionawr, ac fe ostyngodd hynny i lefel rhybudd 4 ym mis Chwefror. Mae lefel rhybudd 3 yn golygu bod y feirws mewn cylchrediad cyffredinol. Mae'r lefel rhybuddio hon yn y DU yn ymwneud â'r bygythiad yn sgil y feirws ac yn lefel sydd ar wahân i'r lefelau rhybuddio sy'n sail i'r cyfyngiadau yng Nghymru.

## Diweddariad ar y brechlyn AstraZeneca

*7 Mai 2021*

Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi y bydd yn rhoi'r newid yn cyngor gan y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu a'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd ar waith, ac yn cynnig dewis arall i'r rheini sydd o dan 40 oed (heb unrhyw ffactorau risg clinigol) yn hytrach na brechlyn AstraZeneca. Dylai'r rheini sydd eisoes wedi cael dos cyntaf o'r brechlyn AstraZeneca dderbyn yr ail ddos.